**Cyfarfod Llawn 2001-2002 (46)**

**Dydd Iau, 31 Ionawr 2002**

# AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am**

**Eitem 1**
**Ethol Aelodau o'r Grwp Llafur i'r Pwyllgor Deddfau**
*NDM942* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol Christine Chapman (Llafur), Huw Lewis (Llafur) a Tom Middlehurst (Llafur) i lenwi'r lleoedd gwag ar y Pwyllgor Deddfau yn dilyn ymddiswyddiad Brian Gibbons (Llafur), Peter Law (Llafur) ac Alun Pugh (Llafur).

**Eitem 2**
**Ethol Kirsty Williams i'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad**
*NDM941* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol Kirsty Williams (Democratiaid Rhyddfrydol) i lenwi'r lle gwag ar y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn dilyn ymddiswyddiad Eleanor Burnham (Democratiaid Rhyddfrydol).

**Eitem 3**
**Ethol Eleanor Burnham i'r Pwyllgor Archwilio**
*NDM940* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol Eleanor Burnham (Democratiaid Rhyddfrydol) i lenwi'r lle gwag ar y Pwyllgor Archwilio yn dilyn ymddiswyddiad Kirsty Williams (Democratiaid Rhyddfrydol).

**Eitem 4**
**Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 5**
**Cwestiynau Llafar i Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 6**
**Datganiad: Y Gweinidog dros yr Amgylchedd ar "Cynllunio: Cyflawni dros Gymru"**

**Eitem 7**
**Datganiad: Prif Weinidog Cymru ar Corus**

**Eitem 8**
**Cynnig i Gymeradwyo'r Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Addysg (Cymru) 2002 –** ***Ni fydd yr eitem hon yn cael ei chyflwyno.***

**Eitem 9**
**Dadl a enwebwyd gan Pauline Jarman yn unol â Rheol Sefydlog 29**
*NNDM911 Pauline Jarman (Canol De Cymru);*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan reol sefydlog 29.2, yn cyfarwyddo'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ddwyn is-ddeddfwriaeth ddrafft gerbron o dan adran 78(1) Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 ac unrhyw bwerau eraill o'r fath sy'n galluogi'r Cynulliad i ddarparu ar gyfer gwneud taliadau i gwrdd â chostau cyflenwi cyfarpar optegol a ragnodwyd, neu i gyfrannu at gostau o'r fath.

Y nod yw darparu ar gyfer ariannu ail set o gyfarpar optegol ar gyfer rhai pobl benodol hyd at 19 mlwydd oed, fel y gwêl yr optegydd yn dda.

Cliciwch yma i weld y Dadansoddiad Cost a Budd - *Ar gael yn Saesneg yn unig. Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr.*

***Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:***

**Gwelliant 1 - Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

Dileu'r geiriau "fel y gwêl yr optegydd yn dda" gan roi'r geiriau a ganlyn yn eu lle, "unwaith y bydd yr optegydd wedi gwneud cais i'r perwyl hwnnw i'r Awdurdod Iechyd priodol, ac unwaith y bydd wedi cael sêl ei fendith".

**Eitem 10**
**Dadl Fer:**
**NDM939 Gwenda Thomas (Castell-nedd):** Mae'n iaith i mi ac mae'n iaith i tithau.

**Dylai'r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm.**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 5 Chwefror 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**